

Tasg 2

Dyletswyddau'r Frenhines

Mae Brenin neu Frenhines y Deyrnas Unedig yn bennaeth ar wledydd y Deyrnas Unedig, y Fyddin, 52 o wledydd y Gymanwlad a'r Eglwys yn Lloegr.

Mae'r Frenhines Elizabeth yn gorfod darllen ac arwyddo llawer o ddogfennau ac adroddiadau sydd wedi eu hysgrifennu gan Weinidogion Llywodraeth a Swyddogion gwledydd y Gymanwlad.

Mae hi hefyd yn croesawu gwesteion pwysig fel arweinwyr crefyddol a phenaethiaid gwledydd eraill. Mae hi'n treulio llawer o'i hamser yn teithio o amgylch y wlad a thramor yn ymweld â llefydd fel ysgolion ac ysbytai.

Ar ôl darllen y wybodaeth uchod, a hoffech fod yn Frenin neu'n Frenhines? Gwnewch ddwy golofn - un i nodi rhai pethau cadarnhaol am fod yn Frenhines a cholofn arall i nodi pethau negyddol am fod yn Frenhines.

Pethau positif am fod yn Frenhines	Pethau negyddol am fod yn Frenhines